**CYFARFOD Y CYNGOR** **18fed GORFFENNAF 2018**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 20fed Mehefin 2018 | - | Rhifau Cofnod | 19-37 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 20fed Mehefin 2018 | - | Rhifau Cofnod | 6-8 |
| Pwyllgor Cynlluno | - | 4ydd Gorffennaf 2018 | - | Rhifau Cofnod | 9-12 |

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 4ydd Gorffennaf 2018 | - | Rhifau Cofnod | 17-31 |

**3. CYFLWYNIAD GAN Y CYN FAER, Y CYNGHORYDD ALAN JAMES**

Y Cyn Faer y Cynghorydd Alan James i gyflwyno i Ms Eleri Brady o Gronfa Ganser Macmillan arian a godwyd yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

**4. ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

**5. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CREDYDWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**6. CYFLWYNIAD – CYNNIG BID Y RHYL**

Ymhellach i Gofnod Rhif 153 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 2il Mai 2018, derbyn cyflwyniad gan gynrychiolwyr Mosaic Partnership, Ymgynghorwyr a benodwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i symud ymlaen

gyda Chynnig BID y Rhyl a Phrestatyn ac os yn briodol, penodi cynrychiolydd i Grŵp Llywio a Gweithredu Bid y Rhyl.

## 7. CHRIS RUANE AS – CYFARFOD I DRAFOD WI-FI AR STRYD FAWR Y RHYL

Ymhellach i Gofnod Rhif 5 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5ed Mehefin 218, derbyn adroddiad y Cynghorydd K. Jones ar ei bresenoldeb yn y cyfarfod i drafod cyflwyno Wi-fi ar Stryd Fawr y Rhyl.

## 8. STREETGAMES – CAIS I DDARPARU CYFLWYNIAD

Penderfynu ar gais a dderbyniwyd gan Ms. Emma Jones Swyddog Datblygu Gogledd Cymru, Streetgames i roi cyflwyniad i'r Cyngor ar eu gwaith yn y Rhyl.

## 9. EITEMAU ER GWYBODAETH

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

## 10. HOLI AC ATEB

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

## 11. EGWYL MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL

Cadarnhau trefniadau i ddirprwyo Pwerau Gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad gyda'r Aelodau canlynol ar gyfer y cyfnod 19eg Gorffennaf 2018 hyd at 5ed Medi 2018:

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Maer a/neu'r Dirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Eitemau Pwyllgor SOP | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor SOP |
| Holl Faterion Eraill | - | Cadeirydd a/neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol |

## 12. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

## 13. GWYBODAETH: COFNODION CYFRNACHOL

Derbyn y cofnodion cyfrinachol canlynol (copïau'n amgaeëdig) er mwyn eu cadarnhau:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor SOP | - | 9fed Gorffennaf 2018 | - | Rhifau Cofnod 14-12 |

## 14. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.